

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 5 Rhif 10

Yn rhad ac am ddim

Y Nadolig a Ionawr 2025



Genedigaeth Iesu

gan Carol Evans

Dawel ddinas Bethlehem
ganwyd Baban Mair
yn y beudy oer a thlawd
ar y gwely gwair
Daeth bugeiliaid drwy y nos
i addoli ef
Baban Bach, Goleuni'r Byd,
Iesu Grist o'r nef

Seren uchel yn y nen
arwain doethion dri
gydag aur, a thus a myrr
at yr Iesu Cu.
Llais angylion yn y nen
canu anthem gref
Baban Bach, Goleuni'r Byd
Iesu Grist o'r nef.

Dewch i'r preseb annwyl ffrind
i weld yr Iesu Mawr
edrych ar ei wyneb pur
cofia plygu i lawr.
Dyma obaith dynolryw
moliannu iddo ef
Baban Bach, Goleuni'r Byd
Iesu Grist o'r nef.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

O Dasmania Bell

Geiriau Caredig o Hobart Tasmania

oddi wrth Robin Roberts



Diolch Rob am eich holl waith caled yn cynhyrchu'r Wennol bob mis ac yn ein hannog i ddysgu Cymraeg.

Mae Tasmania tua dwywaith maint

Cymru gyda phoblogaeth o hanner miliwn o bobl. Fel chi rwy'n mwynhau crwydro cefn gwlad a thynnu lluniau ond gyda phoblogaeth mor isel mae gennym ddigon o ffyrdd cefn tawel a dim llawer o'r traffyrdd dw i'n hapus i osgoi. Mae llawer o'n mannau prydferth oddi ar y trac wedi'i guddio a gallwn fod yn ddigon ffodus i beidio â gweld enaid arall. Rwy'n siŵr y byddech chi wrth eich bodd yma.

Dymuniadau gorau a hwyl fawr - Robin.

Diolch yn fawr iawn Robin, dw i'n gwerthfawrogi hynny.



Bronwen Parr

Dyn ni'n byw i'r de o Hobart, Tasmania, ar 5 erw o gaeau a choed gwm. Mae'r coed pinwydd yn tyfu'n gyflym fel chwyn yma ar ymyl ein ffyrdd.

Dyn ni'n torri coeden fach gyda'n hwyrion, rhoi fo ar ein dec tu allan, ac yn ei haddurno. Dyn ni'n rhoi anrhegion pawb o'i gwmpas.

Mae llawer o'n teulu a'n ffrindiau yn dod i'n tŷ ni. Dyn ni'n bwyta amrywiaeth o salad a chaws, ffrwythau, bwyd môr, diodydd oer, paflofa a hufen iâ. Dyn ni'n coginio cig oen a chig eidion ar y barbeciw.

Rhaid inni fod yn ofalus i beidio â chael llosg haul!



Wendy Evans

Mae'r Nadolig yn Awstralia yn wahanol iawn i'r Nadolig yng Nghymru. Mae'n haf yma felly gall dydd Nadolig fod yn eithaf poeth. Mae

llawer o bobl yn nofio mewn pyllau neu yn y môr ar ddiwrnod Nadolig ac mae cinio yn aml yn gymysgedd o fwyd oer fel salad, cimwch y môr a bwydydd eraill o'r môr. At hyn efallai y byddwn yn ychwanegu bwyd traddodiadol fel twrci, saws llugaeron, ham, tatws a llysiau. Roedd fy nhad wrth ei fodd efo cnau ffrenig wedi'u piclo ac ysgewyll Brwsel felly byddwn ni'n cael y rheini bob blwyddyn hefyd. Mae rhai traddodiadau yn parhau!

Robin Roberts



Bob Nadolig mae'r cyngor lleol yn cynnal brecinio am ddim i'r rhai yn y gymuned sy'n dymuno cymryd rhan. Ar noswyl y Nadolig a dydd Nadolig rwy'n ymuno â thîm o wirfoddolwyr sy'n helpu i sefydlu a pharatoi ar gyfer pryd o fwyd blasus.

I mi, y rhan orau yw gweithio gyda thîm o bobl siriol i wneud diwrnod cofiadwy i bobl a allai fod yn gweld amser y Nadolig ychydig yn heriol.

Ar brynhawn Nadolig rwy'n ymuno â fy ffrindiau am farbeciw BYO ym mharc traeth lleol lle rydym yn chwarae gemau cyfeillgar fel pêldroed, rownders neu fini polo.

Guy Nicholson



Mae gen i deulu mawr a rhai ohonon nhw yn byw ar gyfandir Awstralia felly mae'n rhaid i mi brynu anrhegion i bawb a'u gyrru nhw mewn digon o amser cyn dydd Nadolig. Mae fy ngwraig, ei mab a fi yn chwilio bob blwyddyn am goeden Nadolig yn y cefn gwlad ger Hobart. Mae yna lawer o binwydd yn Nhasmania ac maen nhw'n tyfu o gwmpas y lle fel chwyn.

Mae'r hinsawdd yn Nhasmania yn wahanol i Brydain oherwydd gwres yr haf (sy ddim wedi cyrraedd eto) ond er gwaethaf hyn dwi'n edrych ymlaen at fwyd traddodiadol sy'n dŵad yn wreiddiol o Brydain. Fel arfer rydym yn treulio dydd Nadolig efo aelodau'r teulu ac eleni efo merch fy ngwraig a'i phartner sy'n llysieuwyr. Yn ffodus byddai'n bosib i bobl eraill fwyta twrci hefyd ac rydym i gyd yn medru rhannu bwyd a

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

diodydd blasus fel cacen Nadolig, pwddin Nadolig, mins peis a photel neu ddwy o win Tasmanaidd.

Nadolig: Cyn ac Wedi

gan Peter Ball



Mae'n amlwg fod Nadolig yn dod pan mae'r tywydd yn Nhasmania yn fwy poeth nac ym Mhrydain, ac mae pobl yma yn bwyta bwydydd gwahanol - er enghraifft cimwch a salad ffrwyth yn lle twrci a phwddin eirin - ac yn arferol yn bwyta dan gysgod rhyw goeden neu mewn llecyn ar y traeth.

Serch hynny, mae rhywbeth arall, llai amlwg, sydd wedi cymryd llawer o flynyddoedd i mi sylwi. Yn Awstralia mae'r flwyddyn ysgol, prifysgol a masnach yn dechrau ym mis Chwefror ac yn dod i ben ym mis Rhagfyr. Oherwydd mai hynny yw'r arfer cenedlaethol, yn ystod y misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr mae'n rhaid i bawb gwplu popeth mewn pryd, cyn Nadolig a chyn y Gwyliau Haf: cymaint o gyngherddau (gan gynnwys ymarferion), adroddiadau athrawon, penodiadau meddygol (gan gynnwys profion gwaed, pelydrau-x, gwahanol scans.) Mae'r cyfnod yn brysur dros ben.

Ac ar ôl y Dolig? Wel, mae Gŵyl San Steffan, Dydd Calan a'r arwerthiannau wrth gwrs. Ym Mhrydain bant â phawb i'r gwaith. Dim yr un peth yn Nhasmania: bant â ni yn syth i'r traeth, i nofio neu hwylio, i chwarae neu wyllo'r criced a thenis. Mae'r strydoedd yn y dre braidd yn dawel, ac mae'r gwyliau'r haf yn parhau tan fis Chwefror.

Ac wedyn, mae popeth yn mynd yn ôl i normalrwydd.

Mi wnaeth Peter ddod i'n gweld ni yn y grŵp yn Southgate yn ystod yr haf ac roedd yn braf i'w weld. Os dach chi ar wyliau yn ardal Abertawe a Gŵyr, cofiwch ddod i'n gweld ni! - Rob

Atgofion o Seland Newydd Nadolig yn yr Haf

gan Deborah McCarney



Pan o'n i'n blentyn, o'n i'n byw yn Seland Newydd. O'n i'n edrych ymlaen at y Nadolig, wrth gwrs - fel unrhyw blentyn o'n i'n moyn gweld beth fyddai o dan y goeden Nadolig pan ddihunais i'n gynnar yn y bore. Ond roedd hi wastad yn teimlo bach yn od i weld y cardiau Nadolig yn cyrraedd gyda lluniau o eira ac aderyn bach estron gyda brest goch nad o'n i erioed wedi gweld ymhlith adar pert Seland Newydd.

Pan oedd fy mhlant yn ifanc o'n ni'n byw yng Ngorllewin Awstralia, gyda'r tywydd yn grasboeth weithiau. Doedd hi ddim yn anarferol cael tymereddau o 35 gradd o leiaf! Oedd fy rhieni'n byw yno hefyd, a gan fod nhw'n dod o Brydain yn wreiddiol, roedd fy nhad yn mynnu cael cinio Nadolig tebyg i beth o'n nhw'n arfer bwyta yn Lloegr. Oedd rhaid i fy mam druan dreulio oriau yn y gegin yn paratoi mins-peis, cacen Nadolig a chinio traddodiadol nad oedd neb heblaw fy nhad yn moyn bwyta yn y poethder! Oedd rhaid i'r aircon weithio'n galed iawn y diwrnod 'na!

Ond roedd traddodiad newydd gyda fi a'r plant! Bob Gŵyl San Steffan o'n ni'n mynd i Ganolfan Sinema a threulio'r holl ddiwrnod yno gydag aircon am ddim. O'n i'n prynu tocynnau i weld ffilm newydd sbon yn y prynhawn, ond yn y bore o'n i'n rhoi arian i'r plant i chwarae yn y stafell gemau, yr unig ddydd o'r flwyddyn o'n nhw'n cael gwneud hynny. Wedyn o'n ni'n bwyta yn y caffi, gweld y ffilm, ac aros i'r machlud cyn gadael i fynd adre.

Ysgrifennu

Mae ysgrifennu yn ffordd ardderchog i ymarfer eich Cymraeg, does dim gymaint o bwysau arnoch chi achos dach chi ar eich pen eich hun. Mae'r geiriadur wrth law ac, efallai, paned o goffi hefyd!

A does neb yn mynd i fod yn flin efo chi os dach chi'n gwneud camgymeriad.

Oes gennych chi stori? - anfonwch o ataf i!

bobwennol@ntlworld.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

O'r Wladfa Bell

gan Carola Casal Armstrong

Carola dw i. Dw i'n dod o'r Ariannin. Dw i'n byw yn Nhrelew, talaith Chubut ym Mhatagonia.

Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg, dw i'n meddwl bod dysgu Cymraeg yn gyffrous ac yn heriol ar yr un pryd! Pasiais i'r arholiad Mynediad yn 2023 ac arholiad Sylfaen eleni. Ac roedd llwyddo yn yr arholiadau yn arbennig o dda i mi. Dw i'n gwneud y Cwrs Canolradd, ar hyn o bryd.

Mae'r haf yn agosáu yn y rhan hon o'r byd, felly, mae ein Nadolig ni yn ychydig yn wahanol.

Mae'r dyddiau yn heulog iawn ac yn gynnes. Felly, sut dan ni'n paratoi ar gyfer y dathliad mawr? Wel, i ddechrau byddwn ni'n addurno'r goeden Nadolig, mae fy mhlant yn mwynhau helpu mi! Byddwn ni'n prynu anrhegion i'w rhoi o dan ein coeden Nadolig ni a byddwn ni'n trafod beth i'w bwyta, yn sicr!

Achos bod hi'n haf yn ystod y Nadolig, dan ni'n bwyta bwyd oer, wrth gwrs. Mae' gennym ni fwydydd traddodiadol ac yn arbennig i ddatlu Nadolig fel "Vitello tonnato", "Thwr crempogau" ac "Asado Cig Oen", wrth gwrs!

Ar gyfer pwdin byddwn ni'n cael salad ffrwythau efo hufen neu hufen iâ. Blasus iawn!

Yn fyr, byddwn ni'n cael llawer o fwyd a bydd y tywydd yn boeth iawn ond byddwn ni'n mwynhau treulio amser efo'r teulu, a dyna'r peth pwysig ynte!



Debbie Jones



Helo pawb! Debbie Jones dw i. Dw i'n byw ym Mro Morgannwg, rhwng Y Barri a Phenarth. Dw i'n dysgu Cymraeg ers tair blynedd nawr, a dw i'n dwlu arno fe!

Ces i fy magu yn Y Barri yn y chwedegau a'r saithdegau a ro'n i erioed yn clywed unrhyw un yn siarad Cymraeg o gwbl. Yn yr ysgol gynradd, dysgais i ganu'r anthem genedlaethol ac adrodd Gweddi'r Arglwydd yn Gymraeg, ond dim byd arall. Wedyn, yn yr ysgol uwchradd ro'n nhw'n dweud wrthon ni fod Ffrangeg ac Almaeneg yn fwy pwysig. Ond ro'n i wastad eisiau deall Cymraeg. Felly, pan nes i ymddeol nes i gofrestru ar gwrs.

A dweud y gwir mae hyn wedi newid fy mywyd. Dw i wedi cwrdd â chymaint o bobl hyfryd a dw i'n mynd bob wythnos i ddau grŵp llyfrgell i fwynhau sgwrsio yn Gymraeg gyda ffrindiau newydd dros goffi.

Mae'r tri o blant sydd gyda fi wedi tyfu fyny ac eleni, mae un ohonyn nhw wedi dechrau dysgu hefyd. Dw i mor hapus! Awdur yw hi a dw i'n gobeithio byddai hi'n gallu ysgrifennu straeon i ddysgwyr yn y dyfodol.

Yn ystod yr haf, aethon ni i gyd i'r Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf. Roedd y profiad yn wych! Gwelais i'r seremoni gadeirio hefyd. Roedd e'n arbennig ac yn eithaf emosiynol. Dyn ni eisoes yn edrych ymlaen at fynd i Wrecsam am yr Eisteddfod blwyddyn nesa.

Mae fy mhlant eraill yn gefnogol iawn. Datblygwyr meddalwedd ydyn nhw sy wedi creu app i helpu dysgwyr ymarfer eu geirfa. Mae e'n fersiwn o 'Wordle', gyda'r wyddor Cymraeg. Dw i'n hoffi'r her bob dydd! Mae e ar gael am ddim ar www.gemaucymraeg.com. os dych chi'n ceisio fe, dw i'n gobeithio byddwch chi'n mwynhau fe cymaint â fi!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Fy nghartref am byth

gan Jay M Ramsurrun



Cefais fy ngeni yng nghanol cefnfor
ar ynys sydd yn ddim ond dot ar y map o'r byd.

Wyddwn i ddim am fodolaeth y wlad
lle mae llawer o bobl yn siarad iaith y nefoedd.

Fy enaid aflonydd fel gwenynen newynog
chwilio am neithdar melys
wedi dod o hyd i'r nefoedd.

Mae fy nghalon yn llawn llawenydd.
Nawr fy mod yn byw yn y nefoedd hon ar y
ddaear;

Cymru, fy nghartref am byth.



Caerfaddon

gan Lauren Marbrow



Dros y gwyliau haf, ymwelais i â Chaerfaddon
gyda fy nheulu - fy ngŵr, fy merch a fy mab.
Aethon ni am ddwy noson ac arhoson ni mewn tŷ
tref enfawr - chwe llawr a chysgu hyd at 22 o
bobl!!!

Ro'n ni'n byw yng Nghaerfaddon a gadewais
yn 2017, ar ôl 12 mlynedd. Roeddwn i'n arfer
gweithio fel ffisiotherapydd yn y prif ysbyty yna,
ac wedyn ennill cymwysterau fel Ffisiotherapydd

Press Release:

GM Notebooks launches first ever 'Cymraeg a Phaned' - A Free, Informal Welsh Learning Initiative

GM Notebooks is thrilled to announce the success of its first-ever 'Cymraeg a Phaned' event, an exciting initiative designed to bring Welsh learners together from around the world. The free session was hosted by Gwilym, the owner of GM Notebooks and an 18-year-old Welsh and French student at Cardiff University, who started the initiative to support fellow learners in practicing Welsh in a relaxed, informal setting.

The session saw 15 wonderful learners join the virtual call from all corners of the globe, with the majority from Wales, and a warm welcome extended to a few learners from the United States. 'Cymraeg a Phaned' (which translates to 'Welsh and a Cup of Tea') gives learners an opportunity to converse in Welsh with one another, breaking down barriers and offering a welcoming, supportive environment.

"I started GM Notebooks with the aim of helping others in their Welsh language journey, and I'm so pleased that this initiative has taken off with such enthusiasm," said Gwilym. "It's been wonderful to see people connecting, practicing their Welsh, and even making new friends from different parts of the world."

The initiative is completely free, making it accessible to everyone, regardless of their level of Welsh. Whether you're just beginning or are more advanced, 'Cymraeg a Phaned' is the perfect space to chat in Welsh without any pressure.

For those interested in joining the next session, Gwilym invites you to vote for a date that works best for you through the following link: <https://calendly.com/d/crbw-shn-2f5/cymraeg-a-phaned-2-gm-notebooks>

To find out more about GM Notebooks and what we're doing, please visit www.gmnotebooks.co.uk

Welsh translation will be in the February issue. - Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Milfeddygol a rhedeg fy nghlinigau cŵn a cheffylau. Felly, roedd y daith yn hiraethus iawn i fi - taith i lawr lôn atgofion!

Gwnaethon ni pethau twristaidd, fel ymweld â'r baddonau Rhufeinig a'r Royal Crescent. Cwrddon ni gyda ffrindiau ym Mharc Victoria, ac wedyn aethon ni i fwyty am swper. Hefyd, aethon ni â'r plant i chwarae ar drampolîn a bowlïo deg.

Tra oeddwn yng Nghaerfaddon gwelais fy fflat cyntaf, cofio llawer o straeon doniol am amseroedd da, a dangosais y ddinas hardd hon i'm teulu.

Mwynheais i'n taith, ond cofiais am sŵn a phrysurbwch y ddinas. Felly, roeddwn i'n hapus i yrru adre i'n lle tawel yn Sir Gâr - dim traffig!



Dathlu'r Dolig

gan Patrick Soper

Er gwaethaf yr holl ffwdan a masnachyddiaeth, dwi'n edrych ymlaen at y Nadolig bob blwyddyn; i mi mae'n amser arbennig iawn.

Gyda mis Tachwedd ar fin dod i ben dyma fi yn prynu amrywiad o gardiau gyda lluniau cynnes a boddhaol - brigau celyn, efallai, neu aelwyd gyda thanllwyth o dân



Rhywbryd tua'r 9fed neu 10fed mis Rhagfyr, ac er ein bod yn ein saithdegau, mae fy ngwraig Ann a fi yn ymdopi â llusgo o'r atig y tri neu bedwar blwch sy'n cynnwys ein haddurniadau Nadolig, ac yn mynd ati. Bydd coeden Nadolig i'w roi at ei gilydd, a'r cadwynau papur i'w gwneud a'u gosod yn yr ystafell fyw, y gegin, y grisiau a'r pen grisiau. Yn anad dim, mae angen addurno'r ystafelloedd gyda llinynnau o oleuadau lliwgar; hwn yw fy hoff addurniad.

Rydym yn prynu anrhegion syml ein bod yn credu y bydd pawb yn eu hoffi, a'u lapio ar fwrdd y gegin. Mae fy ngwraig yn hollbwysig wrth benderfynu beth i'w prynu gan fod ganddi mwy o ddychymyg na fi. A bydd hi'n dewis bwydydd blasus y tymor: twrci, pwddin Nadolig, a digonedd o fins peis; ac wedyn bydd hi yn gwneud teisen ffrwyth cyfoethog gyda haen drwch, drwch o farsipán ac eisin - gwych!

Heb os mae'n wir i ddweud bod pob teulu, dros amser, yn datblygu ei draddodiadau ei hun, sy'n datblygu yn nodwedd hanfodol o'r Nadolig. I ni fel teulu darn pwysig o'r Wyl ydy pawb yn dod at ei gilydd yn ein tŷ ar Noswyl y Nadolig a'r pnawn yn toddi i'r hwyr, mae'n bleser pur.



Erbyn hynny rydym eisoes wedi anfon ein harchebion i'r lle cludfwyd Indiaid lleol. Cyn gynted i'n prydau o fwyd cyrraedd, rydym ni i gyd yn eistedd wrth

fwrdd y gegin, gan gynnwys ein mab, ein merch ac ein mab-yng-nghyfraith, ein hwyres a'i sboner, ein hŵyr a'i gymar ac ein gor-wyres, Poppy, a fydd yn dair blwydd oed yn y gwanwyn.



I fi dyma bryd o fwyd sy'n atgyfnerthu'r synnwyr o deulu a chymuned, ac felly nawys y Nadolig. Hon yw'r wledd i nodi heulsaf y gaeaf gyda'n teulu estynedig wedi'i gasglu ynghyd gan sgwrsio a chwerthin. Wrth inni eistedd o gwmpas y bwrdd hwnnw yn mwynhau ein cyrri a naan rydym yn dilyn patrwm ein hynafiaid milenia cyn dyfodiad Cristnogaeth. Roeddent yn ddiolchgar eu bod wedi goresgyn gwaethaf y gaeaf, gyda'r gobraith diymhongar a distaw y bydden nhw'n goroesi i'r gwanwyn a thu hwnt pan fyddai'r cnydau yn dechrau ymddangos yn y caeau a gallai cylch bywyd ailddechrau unwaith eto.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Dai a'r Nadolig

gan Bryan Roberts



Wel, dyma fi yn y dafarn, y nos Wener cyn y Nadolig, ac yn gobeithio y bydd Dai yno heno fel arfer. Am y ddwy wythnos diwethaf, nad ydy o wedi ymddangos, ac nad ydi o wedi gadael imi wybod pam. Gwnes i geisio cysylltu â fo trwy alwadau ffôn a tecst, heb lwyddiant o gwbl ac felly, erbyn hyn, dw i wedi dechrau poeni. Roeddwn i'n gwybod bod Dai'n mwynhau ein nosweithiau yn y dafarn ac na fysai fo'n eu colli heb reswm da. Dyna pam oeddwn wedi dechrau meddwl roedd rhywbeth difrifol wedi digwydd iddo fo.

Os na fydd Dai'n troi i fyny heno, na fyddai'n gwybod beth i'w wneud nesaf, oherwydd yr wyf yn hoff iawn o'r hen foi, er gwaethaf popeth sydd wedi digwydd iddo dros yr amser dw i wedi ei nabod. Os ydych chi wedi bod yn ddarllenwyr y Wennol dros y flwyddyn ddiwethaf neu fwy byddech chi'n gwybod beth dw i'n meddwl.

Yn sydyn agorodd y drws, a dyna fo, Dai, o'r diwedd.

"Mam fach Dai, lle goblyn wyt ti wedi bod? Dw i wedi bod mor bryderus. Wnes i feddwl bod ti wedi cael damwain, neu rywbeth. Yn fy marn i mae arnat ti esboniad imi" dywedais.

"Sori mêt, dw i wedi bod i ffwrdd ar gwrs, yn hyfforddi i fod yn Siôn Corn" dywedodd.

"Mae'n bron yn Nadolig, wyt ti wedi bod yn gweithio heddiw?" gofynnais.

"Gad imi gael peint a fydda i'n dweud yr holl stori wrthot ti"

"Ydy popeth yn mynd yn iawn, Dai?"

Aros am funud, byddi di'n gwybod popeth cyn bo hir"

Beth ddigwyddodd y tro yma?" meddyliais?

Dyma'r esboniad fel gwnaeth Dai ei ddweud wrtha i.

Welodd o hysbyseb yn y papur yn dweud bod 'na swydd wag am rywun i fod yn Siôn Corn, mewn un o'r siopau mawr yn y dref. Meddylodd fod hynny'n rhywbeth gwahanol i'w gwneud, oherwydd mae o'n hoff iawn o blant, felly ceisiodd o a chafodd o'r swydd.

Aeth o ar y cwrs tri diwrnod er mwyn ddysgu sut i fod yn Siôn Corn credadwy, a chafodd o siwt goch a locsyn mawr gwyn (barf yn y de) ar ddiwedd y cwrs. Yn ychwanegol, cafodd tystysgrif oddi wrth yr adran Iechyd a Diogelwch i brofi bysai'n iawn i gwsmeriaid gadael eu plant efo fo. Dechreuodd yn "Santa's Grotto" yr wythnos wedyn.

Aeth popeth yn arbennig o dda am sbel, daeth llawer o blant bach cynhyrfus i mewn i gael sgwrs efo fo, ac yn dweud wrtho ba anrhegion hoffon nhw eu cael am y Nadolig. Roedd Dai'n mwynhau'r swydd, a dywedodd y rheolwr ei fod o'n falch iawn ohono fo.

Sut bynnag, dydd Iau diwethaf daeth hogyn bach i mewn i'r grotto, ac yn syth, sylweddolodd Dai na fysai pethau yn mynd mor esmwyth ag arfer.

Dyma sut aeth y sgwrs.

"Ho, ho,ho", (tra gwenu fel giât), beth ydy dy enw di fy machgen i"

"Mici Mows"

"Ho, ho, ho, am fachgen doniol, tyrd ymlaen, beth ydy dy enw go iawn di? Rhaid iti fod yn fachgen da os wyt ti eisiau anrheg"

"Wel dych chi'n dweud mae eich enw chi ydy Siôn Corn, pam nad y gallwn i fod yn Mici Mows?"

"Dw i YN Siôn Corn, ond nid Mici Mows wyt ti"

Na, nid Siôn Corn go iawn ydych chi, oherwydd na allech chi fod mewn dau le ar yr un pryd"

Beth ydych chi yn ei olygu, mewn dau le ar yr un pryd?"

"Mae 'na Siôn Corn yn y siop fawr arall i lawr y stryd, ac mi ddes i o fanna syth i fan hyn. Ydw i'n gorfod dweud mwy?"

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

“Reit fy machgen i dos di allan o famma, does dim anrheg i ti eleni,” a gwthiodd Dai yr hogyn allan o'r grotto.

Gweiddodd yr hogyn “Does dim ots am eich anrheg druenus fach chi, mi fyddai'n cael pob math o bethau hyfryd oddi wrth fy rhieni, diolch yn fawr iawn. Hefyd mi ddes i yma dim ond i brofi wrth fy mêt nag ydy Siôn Gorn yn bodoli.”

Yn anffodus, mi gafodd o ei weld gan reolwr y siop a wnaeth o fynd â Dai i'r swyddfa i gael esboniad oddi wrtho. Yn anffodus ni dderbyniodd y rheolwr esboniad Dai a chafodd o ei ddiswyddo ar unwaith. “The customer is always right” dywedodd y rheolwr.



Cymerodd Dai dracht hir o'i beint cyn rhoi ei wydr i lawr at y bwrdd.

“Dyna fo felly” dywedodd. “dyna pam nid ydw i'n gweithio heno, neu unrhyw amser arall, fel mae'n digwydd. Rhaid imi ymddiheuro iti am beidio dweud dim byd wrthot ti cyn imi ddiflannu, ond o'n i'n gobeithio gallu dod â newyddion da i ti, am unwaith”

Paid poeni Dai” atebodd, “mae 'na fwy o ysbryd Nadolig yma nag yn yr hen siop 'na. Edrycha, mae gen i ryweth bach iti. Nadolig llawen iawn Dai”



Gwasanaeth Y Plygain

gan Martin Jones

Math arbennig o wasanaeth carolau ydy'r Plygain, gwasanaeth sydd â phwyslais ar ganu carolau traddodiadol yn ddigyfeiliant. Cynhelir y Plygain mewn eglwysi a chapeli fel ei gilydd, a beth sy'n gwneud y Plygain yn unigryw ydy taw, ar ôl gwasanaeth byr, y gynulleidfa sy'n cymryd yr awenau - a hyn heb i neb ddweud yr un gair am weddill y Plygain.

Nawr mae'r cantorion yn dod ymlaen pryd bynnag y mynnon - unawdwyr, deuawdau, triawdau, a phartion bach a mawr a chanu carol. Dydy trefn y cantorion ddim wedi'i phenderfynu ymlaen llaw. Pan ddaw yn amlwg bod pawb sy

Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt

Rhaglen 2024/25

20 Ionawr, 2025

Martin Jones:

Y Mwmbwls a Thu Hwnt, Heddiw a Ddoe

17 Chwefror, 2025

Dr Hannah Sams:

Rhoi Llwyfan i Leisiau'r Ifanc

17 Mawrth, 2025

Don Williams:

Meddygon Myddfai

14 Ebrill, 2025

Catrin Stevens:

Y Deiseb Heddwch

19 Mai, 2025

Brian Davies:

Pwy yw Herbert?

16 Mehefin, 2025 — **Côr Tŷ Tawe**

Cynhelir cyfarfodydd yn Neuadd
Murton am 7 o'r gloch.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
Wendy Davies (07814 287049)

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

eisiau canu wedi cymryd eu tro, mae'r "rownd gyntaf" yn dod i ben, ac fel arfer, mae'r gynulleidfa'n canu carol arall. Wedyn mae'r "ail rownd" yn dechrau, ac mae'r cantorion yn dod ymlaen yn yr un drefn yn union â'r "rownd gyntaf". Weithiau mae "drydedd rownd" hefyd, ond eithriad i'r rheol ydy hyn. Yn ystod y Plygain, mae'r holl ganu'n ddigyfeiliant, a does neb yn canu alawon neu set o eiriau sy wedi cael eu canu gan rywun arall. Mae'r Plygain yn dod i ben gyda'r cantorion yn dod at ei gilydd i ganu "Carol y Swper" cyn y darperir swper yn y festri neu neuadd y pentref.

Mae'n debyg bod y gair "plygain" yn dod o'r Lladin "pulli cantus" sy'n golygu "caniad y ceiliog," ac yn draddodiadol, dechreuodd y Plygain am dri o'r gloch yn y bore, ond gyda threigl amser daeth chwech o'r gloch yn fwy cyffredin. Erbyn heddiw, fel arfer cynhelir y Plygain gyda'r nos. Yn wreiddiol, dim ond y dynion fyddai'n mynd i'r eglwys neu gapel a byddai'r merched yn aros gartref. Ond erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, byddai'r merched a'r plant yn mynychu'r gwasanaeth hefyd.

Er bod y Plygain yn draddodiad trwy Gymru i gyd, cysylltir y gwasanaeth yn enwedig â Sir Drefaldwyn lle mae e wedi parhau i ffynnu – ond heddiw mae'r Plygain yn mwynhau adfywiad mewn llawer o ardaloedd eraill hefyd.

Os dach chi'n ddigon ffodus i gael gwasanaeth yn eich ardal chi peidiwch â cholli'r cyfle. Mae'n brofiad arbennig. Ewch a chlustog i eistedd arni!

Gwefannau ble ceuoch gweld mwy am y Plygain:

<https://www.plygain.org/index.htm>

<https://rcahmw.gov.uk/at-the-cocks-crow-y-plygain-an-early-morning-christmas-service-in-wales/>

<https://en.wikipedia.org/wiki/Plygain>

Ac, os dach chi'n mynd, gadewch i ni wybod am y profiad

Rob

Dirgelwch y 'Stafell 'Molchi

gan Deak Kirkham

DECHRAU:

Teitl: Beth sy'n digwydd a beth sy'n cael ei ddweud tu ôl i ddrysau caeedig yr ystafell ymolchi pan fydd bodau dynol yn gadael.

Dramatis personae: *y Sinc, y Cawod, Ffenestr yr ystafell ymolchi, y Rheiddiadur, y Toiled.*

Sîn: *Mae'r bod dynol yn gadael yr ystafell ymolchi ac yn cau'r drws.*

Ffenestr: Fel roeddwn i'n dweud, nid yw popeth yn agored ac ar gau fel yr awgrymwch, Cawod.

Rheiddiadur: Am unwaith dw i'n cytuno â chi, Ffenest. Dw i'n mynd yn boeth iawn o dan y goler pan fyddwch chi'n gwneud popeth mor ddu a gwyn.

Sinc: Dw i'n cytuno hefyd. Dych chi'n cael eich tapio, Cawod

Cawod: Mae'r math yma o ymosodiad yn fy nhroi i ffwrdd a byddai byth yn siarad ag unrhyw un ohonoch eto.

Toiled: Rhowch gaead arno, Cawod.

Mae bod dynol yn dychwelyd i'r ystafell ymolchi ac mae'r ddadl yn dod i ben. I'w barhau...

DIWEDD

Dyn ni'n edrych ymlaen at y ran nesaf Deak! -Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Byd Natur – mis Ionawr 2025

gan Patrick Soper



Mae Llygad Ebrill yn flodyn gwyllt lluosflwydd sy'n tyfu naill ai fesul un neu mewn sypiau yn ein perthi a'n coetiroedd. Aelod y teulu blodyn menyn yw hwn sy'n frodorol i'r nysoedd hyn ynghyd â llawer o dir mawr Ewrop. Rhannir llygad Ebrill yn bedwar isrywogaeth ond fel grŵp mae ganddyn nhw i gyd rhwng wyth a deuddeg petal, a dail ffurf calon.

Mae blodau yn agor mewn ymateb i heulwen ac maen nhw'n darddle gwerthfawr o baill yn gynnar yn y flwyddyn i greaduriaid megis cacwn wrth iddyn nhw ddechrau ymddangos o'u gaeafgws. Dywed llawer o werslyfrau y bydd y blodau'n dod i'r golwg tua diwedd mis Chwefror ac yn gwywo ar ddiwedd mis Ebrill, ond yn wir gallwch weld y blodau melyn llachar calonogol hyn yn ystod rhan fwyaf o fisoedd y flwyddyn.

Arferid meddwl y gallai gwenoliaid ddefnyddio sudd llygad Ebrill ar gyfer atgyweirio golwg cywion bach wedi eu dallu; a hefyd pe byddech yn cadw'r blodyn ffres yn erbyn eich croen, byddech yn sicrhau ennill unrhyw achos llys gan osgoi cael eich carcharu.

Yma yn Ewrop dyn ni'n adnabod y Binwydden Chile fel y Monkey Puzzle Tree am na fyddai mwnci, hyd yn oed, yn gwybod sut i'w ddringo.



Yn cael ei gyfrif yn 'ffosil byw', mae'r goeden hon yn frodor o ganolbarth a de Chile, a gorllewin yr Ariannin. Conwydden wydn fytholwyrdd yw hon, sy'n gallu tyfu i uchder o 130 troedfedd. Dywedir ei fod yn cadw ei dail caled miniog am i fyny at 24 blynedd, ac ni fydd y coed benyw yn cynhyrchu moch coed - gyda chymaint â 200 o hadau - tan eu bod yn 30-40 blynedd oed.

Yn Chile arferai defnyddio pren y pinwydd hwn ar gyfer trawstiau rheilffordd hyd at 1971 pan gafodd y goeden ei wahanrestru'n rhywogaeth warchoddedig. Gwaharddwyd cymynu'r coed unigryw hwn yn llwyr yn 1990 oherwydd roedd eu bodolaeth mewn perygl, yn rhannol o ganlyniad i gyflwyniad o famaliaid o dramor a oedd yn bwyta hadau'r pinwydd.

Yn ystod y 2000au cynnar plannwyd pinwydd Chile mewn pyllau clai gynt yn ardal St Austell yng Nghernyw fel rhan o raglen ail-wylltio arbrolfol.

Amser nawr i edrych ymlaen at y flwyddyn newydd wrth freuddwydio am y pethau y gallwn ni eu tyfu yn ein gerddi - i mi, efallai perlaysiau, y rhai sy'n hawdd eu tyfu a ganddynt ddiogonedd o bersawredd. Beth amdanoch chi?

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Dewch i Sgwrsio

yn Llyfrgell Treforys
13A Pentrepoeth Road, Treforys
Abertawe SA6 6AA



Bob dydd Iau rhwng 10.00yb a 12.00
(o Ionawr 9fed ymlaen)

Pob lefel o siaradwyr Cymraeg a hefyd
Cymry iaith gyntaf.

Mae dŵr poeth ar gael, dewch â chwpan a
beth bynnag arall sydd angen!

Parcio am ddim, ystafell am ddim,
popeth am ddim

Taith Beicio o Bordeaux i Lyon ar hyd y Garonne a'r Rhone Mehafin 2024



O Bastide St Pierre i Toulouse Dydd Llun 10/06: 50 km

Ar ôl brechwast dyn ni'n gadael Suzy, ac yn ymuno â'r llwybr glas ym mhentref Dieupentale. Mae gwinllannoedd Bordeaux - Saint-Sardois a Fronton - yn ffinio â'r llwybr, yna dyn ni'n gweld mwy a mwy o adeiladau diwydiannol a dyn ni'n clywed mwy a mwy o synau ceir a threnau.



Teithiau Cerdded Y Wennol

Beth am ymuno â ni ar deithiau cerdded
yn Abertawe bob dydd Sadwrn?

Cyfle da i gyfarfod dysgwyr eraill ac
ymarfer eich Cymraeg ar yr un pryd

Rhaglen Mis Ionawr 2025

Ionawr 4ydd - Taith o Borth Einon i
Horton ac yn ôl. Cyfarfod yn y maes
parcio.

Ionawr 11eg - O Southgate i Bwll Du,
tua 4 milltir, tipyn o ddringo. Cyfarfod
yn y maes parcio yn Southgate

Ionawr 18fed - Bae Bracelet i
Langland. Cyfarfod yn y maes parcio

Ionawr 25ain - Cronfa Ddŵr Cwm
Lliw. Cyfarfod yn y maes parcio.
SA5 7NP

Mae pob taith yn dechrau am 10.30
Dim cŵn os gwelwch yn dda. Gwisgwch
ddillad a 'sgidiau addas

Dewch i gyfarfod dysgwyr a Chymry
Cymraeg er mwyn mwynhau'r awyr
agored a siarad iaith y Nefoedd.

Dewch i gael hwyl!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Dyffryn y Garonne yw'r cyswllt rhwng y ddau brif metropolis, Bordeaux a Toulouse.



Aligo

Cyrhaeddwn ni Toulouse, y 4edd ddinas fwyaf yn Ffrainc, ar groesffordd dwy bont ddwbl y gamlas. Yna 3 km ymhellach i'r gogledd, cawn ni ein croesawu gyda Nelly a Yannick a'u plant sydd yn eu harddegau.

Ar ôl cael cawod, aethon ni ar antur i nodi ychydig o leoedd yn y ddinas y byddwn ni'n ymweld â nhw y diwrnod



Ein Ffrindiau yn Toulouse

wedyn.

Gyda'r nos, daethon ni'n ffrindiau'n gyflym gyda'n gwesteiywyr cynnes.

Maen nhw eisoes wedi croesi Llydaw ar gefn beic. Dyn ni'n hoffi 'aligo', sef arbenigedd ardal Aveyron, mae'n bryd wedi'i wneud gyda phiwri, hufen a 'tome d'Aubrac', caws arbennig yr ardal. Daw Nelly o'r ardal yma, ger rhanbarth Lozère. Mae Yannick yn dangos waliau mewnol eu bwthyn bach traddodiadol, wedi eu gwneud o gerrig mân a phridd. Dyn ni'n rhoi gwahoddiad i'r teulu i ddod aton ni os ydynt yn penderfynu ymweld â'n rhanbarth - gwlad Abers.

Toulouse

Dydd Mawrth 11/06: 16 km

Gadawon ni ein bagiau yn nhŷ Marie Ange ac Emmanuel, tŷ mawr gyda golwg "bourgeois",

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr Rhaglen 2025

13 Ionawr (Zoom – 7 30 yh)

Sian Rhiannon Williams.
Deiseb Heddwch Menywod Cymru *Welsh Women's Peace Petition*

10 Chwefror (Zoom – 7 30 yh)

Natalie Gwynedd.
Christopher Williams o Faesteg, Ei Fywyd a'i Baentiadau *Christopher Williams from Maesteg, His Life and his Paintings*

12 Mawrth

Y Tair Pedol, Cefn Cribwr (ac ar Zoom – 7 30yh)
Mike Clubb Tanchwa Parc Slip 1892 *The 1892 Parc Slip Explosion*

12 Mai

Ymweliad – 7 00yh Richard Howe
Ymweliad â Phorthcawl. Hanes y Porthladd a'r Rheilffyrdd ym Mhorthcawl
History of the Port and Railways in Porthcawl

09 Mehefin

(Ymweliad – 7 00yh) Geraint Thomas
Ymweliad â Chastell Coety Owain Glyndŵr a Chastell Coety Owain Glyndŵr and
Coity Castle

08 Medi

Y Tair Pedol, Cefn Cribwr (ac ar Zoom – 7 30yh) Gwyn Roberts Tryweryn

13 Hydref

(Zoom – 7 30yh) Athro M Wynn Thomas
Deuddeg o Emynau Gwerthfawr Cymru
Twelve of the Most Valuable Welsh Hymns

10 Tachwedd

(Zoom – 7.30) Dr Paul O'Leary 'A Oes Heddwch?' Mudiadau Protest yn Hanes Modern Cymru
'Is There Peace?' Protest Movements in Modern Welsh History

08 Rhagfyr

(Y Tair Pedol, Cefn Cribwr) – 7 00yh Parti Nadolig *Christmas Party*

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

yng nghanol y ddinas a ger y gamlas. Yna, dyma ni yn archwilio'r 'ddinas binc'. Mae'r clai pinc, sy'n cael ei ddefnyddio i wneud brics yn fwy ar gael na'r chwareli cerrig, yn y rhanbarth yma o Toulouse. Daeth brics yn fwy cyffredin yn yr Oesoedd Canol ar gyfer adeiladau crefyddol a chyhoeddus yn ogystal â thai. Er gwaethaf y ffasiwn genedlaethol am frics carreg, yn Ffrainc, mae ocr, brown, pinc neu oren yn parhau i fod yn ased yma. Mae'r Capitol, yr adeilad arwyddluniol mawr hwn am yn ail â brics a charreg.

Fe'i hadeiladwyd yn fwy nag wyth ganrif yn ôl. Mae colofnau mawreddog y ffasâd sy'n symbol o'r 'capitoules', ynadon y ddinas, wedi creu argraff arnon ni.



Le Capitole yn Toulouse

Mae'r Capitol heddiw yn gartref i neuadd y dref a'r theatr, mae sawl ystafell fewnol seremonïol yn olrhain hanes Toulouse. Y sgwâr canolog aruthrol yw calon y ddinas, fe'i henwir yn Rue Dominique Beaudis (neu Carriera yn iaith Ocsitaneg) ar ôl cyn-faer adnabyddus. Rydyn ni'n darganfod basilica Romanesg hardd Sant Sernin, 115m o hyd a'i glochdy wythonglog mawr o 65 m. Fe'i hadeiladwyd yn y 5ed ganrif er cof am Sant Saturnin, (Sernin yn Ocsitaneg), esgob cyntaf a merthyr a fu farw yn 257AD.



Pont ar afon Garonne yn Toulouse

Pont Neuf (220m) yw'r bont hynaf yn y ddinas (1659) ar yr afon Garonne. Gelwir y tyllau rhwng y bwâu yn "dukeholes", maen nhw'n helpu'r bont gwrthsefyll llifogydd trawiadol yr afon. Mae "La Maison de l'Occitanie" yn esbonio hunaniaeth nodweddiadol y rhanbarth helaeth yma. Mae

Ocsitaneg yn iaith Ramantaidd, o darddiad Lladin, a siaredir yn ne orllewin Ffrainc gyda chwe phrif dafodiaith: Gascon, Languedoc, Limousin, Auvergnat, Provençal a Vivaro-Alpine. Mae arwyddion ffyrdd a sgwariau yn Toulouse yn ddwyieithog. Mae anthem yr Ocsitaneg "Se Canta" hefyd yn anthem y TFC (Clwb Pêl-droed Toulouse / Tolosa) sy'n honni'r hunaniaeth hon yn y diriogaeth. Slogan y clwb yw "Dreit, Totjorn" (sy'n golygu: 'bob amser yn sefyll'). Dysgir yr iaith Oc i blant ac i oedolion.

Fe wnaeth Emmanuel, sydd wedi ymddeol o hedfan sifil, a Marie Ange baratoi pryd ardderchog i ni heno, brest hwyaden, confit gizzard, cacen 'la fenestra', diolch yn fawr iddyn nhw!

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Y Parti Nadolig gan Rob Evans



Ar y 9fed o Ragfyr aeth Martin Jones a finnau i barti Nadolig y Gymdeithas Hanes ac roedden yn edrych ymlaen achos mae wastad yn hwyl. Y tro yma roedden ni mewn lleoliad newydd i ni - Tafarn y Tair Pedol yng Nghefn Cribwr, tafarn gymunedol, gyda'r bobl tu ôl i'r bar yn siarad Cymraeg, hyfryd! Mae hi'n dipyn o bellter o Abertawe a hynny'n golygu bod y byrddau hawdd-i-gyrraedd i gyd wedi mynd, ond roedd bwrdd yn y gornel bell. Ar ôl brynu diodydd gwasgon ni ein ffordd i'r bwrdd a setlo lawr.

A dyma ni gyda'r uchafbwynt gyntaf sef Rod Thomas a'i grŵp frwdfrydig yn codi i'n diddanu ni a ninnau, bob hyn â hyn yn ymuno mewn cytgan. Hyfryd, hyfryd!

Ail uchafbwynt y noson oedd y cwis roedd Enid wedi paratoi - maen nhw bob amser yn hwyl ac yn heriol. Roedd dau dudalen o gwestiynau ac, rywsut neu'i gilydd (neu efallai achos bod ni'n glyfar) roedden ni wedi dod yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ail, ond roedd ail ran o'r cwis ar ôl sesiwn arall efo Rod a'r criw.

Roedd pwysau ar Martin a finnau i droi pethau rownd a rhedeg i ffwrdd efo'r wobr gyntaf, wel nid rhedeg i ffwrdd yn union achos roedden ni wedi dod yng nghar Martin wrth gwrs. Wel roedden ni wedi gwneud ein gorau glas ac ar ôl i'r papurau cael eu marcio roedden ni wedi ennill y safle cyntaf. Ac yma mae'n rhaid i mi ddweud bod newyddion da a newyddion drwg a'r newyddion drwg oedd bod dau dîm arall wedi dod yn gyntaf hefyd! Roedd rhaid cael 'tiebreaker' a'r cwestiwn oedd 'petasech chi' hedfan o fan hyn, hynny yw o Dafarn y Tair Pedol, i Jerwsalem, faint o filltiroedd byddech chi wedi drafeilio? Wel cwestiwn annheg ynte! Petasen nhw wedi gofyn faint o filltiroedd o Sgeti neu Southgate efallai bydden ni wedi gallu gweithio fo allan ond, dyna ni, mae'n rhaid derbyn y canlyniad yndoes?

Y drydydd uchafbwynt (dach chi'n dechrau sylweddoli pa mor bleserus oedd y noson?) oedd y bwyd ac yn yr ystafell tu ôl i'r bar roedd gwledd yn aros amdano ni. Jest y peth i'n paratoi ni am y raffl. Dw i'n hoff iawn o raffls ac o'n i wedi buddsoddi pumpunt mewn pum tocyn. Efo nhw i gyd o fy mlaen ar y bwrdd nes i eistedd yn ôl i aros. Fy rhifau i oedd, os dw i'n cofio'n iawn, rhwng 94 i 98 ond roedd popeth oedd yn dod allan o'r het yn bell, bell i ffwrdd o fy rhifau i ond tuag at y diwedd roedd llawer o'r enillwyr wedi penderfynu peidio cael y wobr olaf. Gyda llaw o ble oeddwn i'n eistedd doeddwn i ddim yn gallu gweld y gwobrau. Yn sydyn ni wnaeth Tom alw rhif 95, rhif 95!! Roedd gen i rif 95! Aeth fy llaw i fyny yn syth a ro'n i ar y ffordd i gasglu fy ngwobr. A dach chi'n gwybod beth oedd o? Wel mi ddwedai yn Saesneg achos dach ar dân eisiau gwybod!

A collapsible walking stick!!

Dydw i ddim yn siŵr os dw i cweit yn barod am hynny ond ar y dydd Sul ar ôl y parti roeddwn i'n dathlu carreg filltir fawr a dydw i ddim yn mynd i ddweud wrthoch chi faint fydd fy oed ond dw i'n siŵr byddaf yn cael rhyw ddefnydd ohono yn y dyfodol

Diolch i bawb oedd wedi trefnu'r noson a hefyd nhw oedd tu ôl i'r bar, roedd hi'n noson bleserus dros ben!

Ysgrifennu

Mae ysgrifennu yn help mawr i ddatblygu eich Cymraeg ond ydych chi'n barod i'w drio?

Pan dach chi'n siarad efo rhywun ydych chi'n sylweddoli bod chi'n cyfieithu beth maen nhw'n dweud i'r Saesneg, meddwl amdano yn Saesneg, cyfieithu eich ateb i'r Gymraeg cyn rhoi eich ateb?

Mae'n broses hir tydi! Wel tydi o ddim yn cymryd llawer o amser, ychydig o eiliadau efallai ond, ar ôl sbel, mae'n gwneud i chi deimlo'n flinedig. Rhan o'r straen yw'r pwysau i ymateb.

Efallai weithiau dach chi'n ymateb yn anghywir a dach chi wedi sylweddoli'n syth, ydych chi'n teimlo dipyn o embaras? Ac a yw'r embaras yna yn effeithio ar eich sgwrs?

Mae ysgrifennu yn rhoi'r cyfle i chi aros a meddwl am beth dach chi'n mynd i ysgrifennu. Os dach chi'n methu dod ar draws y ffordd gorau i ddweud rhywbeth allwch chi aros tan y diwrnod nesaf. Mae'n anhygoel sut mae'r atebion yn dod yn glîr pan dach chi'n ymlacio.

Ond dach chi ddim yn hoffi ysgrifennu! Ydych chi'n siŵr? Beth am drio? Mae'n haws nag ydych chi'n meddwl.

Dechreuwch efo rhywbeth syml a pheidiwch â phoeni am gamgymeriadau - mae pawb yn gwneud nhw.

Anfonwch eich darn ataf i ac mi wna i'n siŵr bod pob camgymeriad wedi cael ei gywiro.

Meddylwch ba mor falch byddwch chi wrth weld eich gwaith yn Y Wennol!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Geirfa

Genedigaeth

Genedigaeth - birth
 Beudy - stable
 Coleuni'r byd - the Light of the World
 Preseb - manger
 Dynolryw - mankind

O Dasmania bell

Geiriau caredig
 Poblogaeth - population
 Ffyrdd cefn tawel - quiet back-roads
 Traffordd - motorway
 Enaid - spirit

Bronwen Parr

Erw - acre
 Coed pinwydd - pine trees
 Chwyn - weeds
 Amrywiaeth - a variety (of)
 Llosg haul - sunburn

Wendy Evans

Cymysgedd - a mixture
 Cimwch - lobster
 Saws llugaeron - cranberry sauce
 Ysgewyll Brwsel - sprouts
 Traddodiad - tradition

Robin Roberts

Brecinio - brunch
 Siriol - cheerful
 Heriol - challenging
 BYO - bring your own

Guy Nicholson

Pinwydd - pine
 Hinsawdd - climate

Nadolig cyn ac wedi

Pwdin eirin - (plum) Christmas pudding
 Masnach - business
 Cenedlaethol - national
 Cyngherddau - concerts
 Ymasfer - practice
 Adroddiad - report
 Penodiadau - appointments
 Gŵyl San Steffan - Boxing Day
 Dydd Calan - New Year's Day
 Arwerthiannau - sales

Writing

Writing is a great help in developing your Welsh but are you ready to give it a try?

When you're speaking to someone do you realise that you are translating what you hear into English, thinking about it in English and translating your reply into Welsh before finally replying?

It's a long process isn't it! Well it doesn't take that much time, a few seconds only perhaps but, after a while it makes you tired. Some of the stress is caused by the need to reply

Perhaps sometimes you reply incorrectly and you realise immediately, do you feel embarrassed? And does that embarrassment affect your conversation?

Writing gives you the opportunity to think about what you're going to write. If you can't come across the best way to say something you can wait until the following day. It's amazing how answers become clear when you are relaxed.

But you don't like writing! Are you sure? What about trying? It's easier than you think

Start with something simple and don't worry about mistakes - everybody makes them

Send your piece to me and I'll make sure that all errors are corrected.

Just think how proud you'd be to see your work in The Wennol

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Atgofion

Dihuno - to awake
Crasboeth - scorching
Tymerheddau - temperature

O'r Wladfa Bell

Y Wladfa - Patagonia
Ariannin - Argentina
Talaith - province
Y dathliad mawr - the great celebration
Addurno - to decorate
Bwydydd traddodiadol - traditional foods

Debbie Jones

Gweddi'r Arglwydd - the Lord's Prayer
Y gwyddor - the alphabet

Fy Nhartref am Byth

Cefnfor - ocean
Bodolaeth - existence
Iaith y nefoedd - Welsh (of course)
Gwenynen newynog - famished bee
Neithdar - nectar
Llawenydd - bliss, cheerfulness

Caerfaddon

Caerfaddon - Bath
Tŷ tref - a townhouse
Cymhwysterau - qualifications
Milfeddyg - veterinary
Baddonnau Rhufeinig - Roman Baths

Dathlu'r Dolig

Ffwdan - fuss
Masnachyddiaeth - commercialism
Boddhaol - pleasing
Aelwyd - hearth
Tanllwyth - blaze
Llusgo - to drag
Addurniadau - decorations
Cadwynau papur - paper chains
Llinynnau goleuadau - string of lights
Haen drwch - a thick layer
Nodwedd hanfodol - necessary characteristic
Noswyl y Nadolig - Christmas Eve
Lle cludfwyd - takeaway
Sboner - boyfriend
Atgyfnerthu - to strengthen
Heulsaf y gaeaf - winter solstice
Teulu estynedig - extended family

Casglu ynghyd - to get together
Hynafiaid - ancestors
Goresgyn - to conquer
Diymhongar - modest
Cnwd, cnydau - crop(s)

Dai a'r Nadolig

Mam bach! - good heavens! etc
Lle goblyn? - where on earth?
Hyfforddi - to train
Siôn Corn - Father Christmas
Esboniad - explanation
Hysbyseb - advert
Ceisio - to apply
Credadwy - believable
Locsyn - beard
Tystysgrif - certificate
Cynhyrfus - excited
Esmwyth - smooth
Anrheg - a present

Y Plygain

Pwyslais - emphasis
Digyfeiliant - unaccompanied
Unigryw - unique
Cymryd yr awenau - to take charge
Eithriad - exception
Darparu - to provide
Caniad y ceiliog - cock crowtreigl amser -
passage of time

Dirgelwch

Drysau caeedig - closed doors
Bodau dynol - human beings
Agored ac ar gau - open and shut
Ymosodiad - attack

Byd Natur

Llygad Ebrill - celandine
Lluosflwydd - perennial
Fesul un - one only
Sypiau - clusters
Brodorol - native
Isrywogaeth - sub-species
Blodyn melyn - buttercup
Dail ffurf calon - heart shaped leaves
Tarddle - source
Paill - nectar
Cacwn - hornet, wasp, bumble bee
Gaeafgwsg - hibernation
Gwerslyfr - text book

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gwywo - to wither
 Gwennol - a swallow
 Sudd - juice
 Atgyweirio - to restore
 Achos llys - court case
 Carcharu - to imprison
 Brodor - native
 Ariannin - Argentina
 Bytholwyrdd - evergreen
 Miniog - sharp
 Moch coed - cones
 Trawstiau rheilffordd - railway sleepers
 Gwahanresrtu - to classify
 Rhywogaeth warchoddedig - protected species
 Ail wylltio - to re-wild
 Arbrolfol - experimental
 Perlysiâu - herbs
 Persawredd - perfume

Beicio yn Ffrainc

Gwinllan - vineyard
 Ffinio - to border
 Gwesteiwyr - hosts
 Arbeniedd ardal - local speciality
 Waliau mewnol - internal walls
 Traddodiadol - traditional
 Archwilio - to explore
 Ffasiwn genedlaethol - national fashion
 Arwyddluniol - emblematic
 Orlhain - to trace
 Merthyr - martyr
 Gwrthsefyll - to withstand
 Llifogydd - floods

Parti Nadolig
 Cytgan - chorus
 Uchafbwynt - highlight
 Gwneud ein gorau glas - made our very best
 Canlyniad - result
 Buddsoddi - to invest
 Carreg filltir - milestone

Llefydd ble mae grwpiau Cymraeg ar gael

Aberaeron

Coffi a chlone Gwesty'r Castell, bob bore Mawrth 10:30- 12. Am fwy o wybodaeth plis cysylltwch gyda Arwel - ja.jones50@btinternet.com

Abergwaun, Sir Benfro.

Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun SA65 9AR bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

Clonc Mannings

Ar gyfer Lefel Uwch a'r Cymry. Cymraeg yw iaith y clonc. Caffi Mannings, Abergwaun. Bob prynhawn dydd Gwener. 1.30-3.30.

Abertawe

Dewch am Sgwrs. Pob prynhawn Gwener rhwng 2.00 a 4.00 yng nghaffi Urban Kitchen, 37 Orchard Street, Swansea. SA1 5AJ Croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth: Robin Campbell: zig_zag64@hotmail.com

Cwm Ivy, Bro Gŵyr - Shw mae dydd Iau

Caffi Cwm Ivy Llanmadoc. SA3 1DJ Pob dydd Iau am 11yb.

Newton, Bro Gŵyr: Yn Neuadd y plwyf, St Peter's Newton SA3 4RA bob dydd Mercher o 12.30 tan 2.30. Dewch i siarad Cymraeg.

vannessabassett@hotmail.com

Southgate, Bro Gŵyr Three Cliffs Cafe SA3 2DH - pob pnaun dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw

bobwennol@ntlworld.com

Clwb Coffi yn Siop Goffi Theo's (yn yr eglwys Methodistiaid) o 10.00 tan 12.00 bob yn ail dydd Gwener. Cysylltwch â Carys Evans

carys.j.evans@swansea.ac.uk

Birmingham

Cwrdd y cyntaf dydd Llun a'r trydydd dydd Mawrth bob mis. Cherry Reds (cafe bar), John Bright Street, Birmingham, B1 1Bj

janine310@btinternet.com

Facebook - Birmingham Welsh Meet Up

Bryn Buga. Pob dydd Iau am 10yb tan 11.30 yn Llyfrgell Bryn Buga. Cysylltwch a: Mike Brown - 07801 348151 neu post@menterbgtm.cymru am fwy o fanylion neu i ymuno'r Grwp Whatsapp

Caerdydd Clonc Bore Llun. Yr Awr Hapus yn cyfarfod yn yr Hollybush Coryton, 10.45-11.45. Yna nol ar Zoom unwaith eto... Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu, @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerdydd Clonc dydd Iau Castell Caerdydd, yn cyfarfod yn y Caffi rhwng 1 a 2 o'r gloch ar ddydd Iau. Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

De Ddwyrain Cernyw - y bore Gwener olaf yn y mis, am 10:30 yb am awr neu awr a hanner; fel arfer yn y caffi ym Mhortwinkle - The Jolly Roger, neu yn Looe yn Island View Cafe (ar ôl y Pasg). Ond - cysylltwch â Lillian am fanylion yn gyntaf. lillian@environomics.co.uk

Dwyfor

Pwllheli cyfarfod ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis am 10.30 ym Mlas Heli LL53 5YT

Llanystumdwy cyfarfod ar y 4ed nos Fercher y mis am 19.30 yn Y Plu LL52 0SH

Nefyn cyfarfod yr 2il nos Lun y mis am 19.30 yn Yr Heliwr LL53 6HD

Porthmadog cyfarfod ar y 3ydd dydd Sadwrn y mis am 10.30 yn y Ganolfan Hamdden (Byw'n Iach Glaslyn), Stryd y Llan, Porthmadog, LL49 9HW.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Martin:

m.croydon@bangor.ac.uk

www.facebook.com/HwbCymraegDwyfor

Llanelli Cyfarfod yn Nhafarn y Sessile Oak am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Croeso i bawb.

clwbcecsllanelli@gmail.com

Oxford/Rhydychen 'Space for Reading', Weston Library, Broad Street, Oxford, OX1 3BG. Pob dydd Gwener amser cinio, 12:00 tan 13:00 Cysylltwch â John Williams jwilliams718@btopenworld.com

Pontypŵl cyfarfod yn Sharon Full Gospel Church, 96, Heol Osborne, Pontypŵl NP4 6LU

Porth, Y Rhondda Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road. Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.-12 y.b. Dydd Gwener Gwersi Cymraeg anffurfiol 10.30-12. Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Southerndown/Aberogwr.

Mae'r grŵp yn cyfarfod ddydd Iau rhwng 10.00yb - 12.00yp yn "Crafts by the Sea", Church Close, Aberogwr. Y cysylltiad yw Linda Williams 07783 415754.

St Albans, Hertfordshire. Cyfarfod ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts,

Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Ebost: amandaferon@outlook.com

Saltney Ferry cyfarfod am 11.00 yn Yr Hen Gaffi, Saltney Ferry CH4 0BJ pob dydd Mercher a phob dydd Sadwrn. cysylltwch â Erica @mackie.co.uk

Thornbury, Glos

Held on the last Tuesday of each month from 14:30 – around 16:00 in Hawkes House, St Mary's shopping precinct, Thornbury BS35 2AB. I call the group 'Cornel y Siaradwyr' and there are usually between 8 and 12 of us present, a mix of 1st language speakers and learners. Contact: britpgi@gmail.com

Trefdraeth, Sir Benfro. Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad. SA42 0PH. Croeso cynnes i bawb.

Trefynwy Clwb Clonc. Pob dydd Llun yn Coffi #1 yn y dref am 1-2pm Croeso i bawb NP25 3PS

Treffynnon Dydd Gwener cyntaf bob mis am 2.00 yn y llyfrgell. Croeso cynnes i bawb. Cysylltwch: 07864 149078

Y Fenni Dydd Llun am 10.30-11.30 - Grŵp Bore Coffi - Y Trading Post, Neville Street, Y Fenni, NP7 5AA - Trefnydd: Chris Chetwynd - e-bost Chris.Chetwynd@coleggwent.ac.uk

Y Fenni Dydd Mercher am 13.00 - 14.00 - Clwb Coffi Y Fenni Newydd (Grŵp sgwrsio anffurfiol) - Y Trading Post fel uchod Cysylltwch â post@menterbgtm.cymru Gall dysgwyr ofyn i ymuno â'r grŵp Whatsapp am unrhyw wybodaeth bellach

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. SY3 7NN ar yr ail a'r pedwerydd dydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358



BETH AMDANI!

WYTHNOS BYW'N GYMRAEG

Pump diwrnod llawn antur yng Ngorllewin Cymru. Y bwriad hefyd yw codi hyder yn y Gymraeg gyda llawer o weithgareddau diddorol.

Llety: Garth Newydd, Llanbed Ceredigion SA48 7AA

Am fwy o wybodaeth ewch i www.paned.cymru



Trefnir gan Hwyliaith

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



Ionawr 2025

Y De a'r Canolbarth

Mae pob taith yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda

Teithiau'n gorffen tua 3.00

04/01/25 Ardal Ynysgynwraidd (Skenfrith) Cylchdaith tua 7 milltir o Gastell Ynysgynwraidd, dilyn Afon Mynwy heibio hen eglwys Llanrothal ac yn ôl drwy goedwig fytholwyrdd. Gorffen gyda dringfa serth yn ôl i'r pentref. **Man Cyfarfod** Maes Parcio Castell Ynysgynwraidd **NP7 8UH SO457203**
Arweinydd Mark Humphries 07972 193539

11/01/25 Gwahoddiad i ymuno â theithiau'r Wennol yn ardal Pwll Du ar Benrhyn Gŵyr a chael hanes y bae anghysbell yma a dod i adnabod dysgwyr brwd Abertawe. Tua 4-5 milltir, tipyn o ddringo. **Man Cyfarfod:** Maes Parcio'r Ymddiriedolaeth yn Southgate **SA3 2DH SS 554874**. **Arweinydd** Rob Evans 07880 628653

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



SESYNAU WYTHNOSOL
WEEKLY SESSIONS
I OEDOLION
FOR ADULTS

menter@broogwr.org
 0777 4032624



awen

Llyfrgelloedd
 Libraries

BORE COFFI PORTHCAWL
PORTHCAWL COFFEE MORNING
 @YMCA PORTHCAWL
 11:00 - 12:00YP/PM

LLUN
MONDAY

COFFI A CHLONC
COFFE AND A CHAT
 @AR-LEIN/ONLINE
 1:30YP/PM

LLUN
MONDAY

BORE COFFI PEN-Y-BONT
BRIDGEND COFFEE MORNING
 @FRESCO CAFE, PEN-Y-BONT
 10:00 - 11:00 YB/AM

MAWRTH
TUESDAY

PANED A SGWRS
CUPPA AND A CHAT
 @LLYFRGELL PORTHCAWL LIBRARY
 6:30 - 7:30 YH/PM

IAU
THURSDAY

BORE COFFI MAESTEG
MAESTEG COFFEE MORNING
 @LLYFRGELL MAESTEG LIBRARY
 11:00 - 12:00 YP/PM

GWENER
FRIDAY

CAM YMLAEN
 GRŴP CERDDED A SGWRSIO CYMRAEG
 WELSH WALK AND TALK GRWP
 @PAFILIWN Y GRAND, PORTHCAWL
 1:30 YP/PM

GWENER
FRIDAY

PANED PRYNHAWN
AFTERNOON CUPPA
 @LLYFRGELL PENCOED LIBRARY
 2:00 - 3:00 YP/PM

GWENER
FRIDAY

BORE COFFI
COFFEE MORNING
 @NEUADD Y TABERNACL, PORTHCAWL
 10:30 YB/AM
 DYDD SADWRN CYNTAF Y MIS
 FIRST SATURDAY OF THE MONTH

SADWRN
SATURDAY

PANED PRYNHAWN
AFTERNOON CUPPA
 @LLYFRGELL Y PÎL/PYLE LIBRARY
 1:00 - 2:00 YP/PM

SADWRN
SATURDAY

MENTER BRO OGWR
 DEFNYDDIWCH EICH CYMRAEG - USE IT OR LOSE IT!

